**Y Pwyllgor Busnes BC100-02(Terfynol)**

**COFNODION CYFARFOD**

**Dyddiad:** 19 Mawrth 2002
**Amser:** 9 am
**Lleoliad:** Ystafell A3.13

**Yn bresennol:** John Marek, y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Carwyn Jones, Y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
Jonathan Morgan, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes y Democratiaid Rhyddfrydol

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau (eitem 6 ar yr agenda)
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Uned Fusnes y Cynulliad
Alun Jenkins, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 4 ar yr agenda)
Marc Wyn Jones, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Andrew Weekes, Ysgrifennydd Preifat y Dirprwy Lywydd

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

**(i) BC78-02 (Terfynol) Dydd Mawrth 5 Mawrth 2002**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf derfynol. Gan nad oedd unrhyw sylwadau cânt eu cyfieithu er mwyn eu cyhoeddi. **Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**(ii) BC85-02 (Drafft) Dydd Mawrth 12 Mawrth 2002**

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar ffurf drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyflwyno yn y cyfarfod nesaf ar eu ffurf terfynol. **Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**3. Materion sy'n Codi (BC85-02 Dydd Mawrth 12 Mawrth 2002)**

**4. Is-ddeddfwriaeth**
**(a) Gorchmynion i'w hystyried**

- Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Dechrau Rhif 9) (Cymru)

- Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") (Cymru)

- Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Addysg (Cymru) 2002

4.1 Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried papurau BC87-02 i BC89-02 oedd yn rhoi cyngor ar ymdrin â'r gorchmynion uchod.

4.2 Dywedodd y Dirprwy Lywydd y gallai paragraff 3 o'r Memorandwm Eglurhaol i BC89-02 am ymgynghori â'r Pwyllgor Dethol fod yn fwy eglur. Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad y byddai'n sicrhau bod y Memoranda Eglurhaol yn glir ar y pwynt hwn yn y dyfodol.

**Penderfynodd y Dirprwy Lywydd wedi hyn na fyddai'n rhaid cyfeirio'r Gorchmynion uchod i bwyllgor pwnc.**

**(b) Gorchmynion a wnaethpwyd o dan y Drefn Weithredol**

BC96-02 to BC98-02
4.3 Nododd Aelodau'r Pwyllgor Busnes yr e-byst a anfonwyd gan Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau yn nodi'r aelodau o amrywiol orchmynion.

BC99-02
4.4 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Busnes y Cynulliad am y defnydd o'r Drefn Weithredol ar gyfer "Cwotâu Llaeth: Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2002". Cytunwyd y dylid anfon copi o pob gohebiaeth am y defnydd o'r Drefn Weithredol at Glerc y Pwyllgor Busnes yn y dyfodol.

## 5. Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau

## 6. Pwyllgorau

BC91-02
6.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y cais gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am gyfarfod ychwanegol.

## 7. Busnes sydd i Ddod

(i) Busnes yr Wythnos Hon

7.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried papur BC93-02 a oedd yn rhoi manylion am fusnes y Cynulliad y cytunwyd arno ar gyfer yr wythnos.

7.2 Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad y byddai Prif Weinidog Gibraltar, yr Anrhydeddus Peter Caruana QC, yn anerch yr Aelodau cyn y Cyfarfod Llawn ar ddydd Mawrth 19 Mawrth. Dywedodd y byddai, yn ychwanegol i'r amserlen fusnes ar gyfer dydd Iau 21 Mawrth 13 o etholiadau i amrywiol bwyllgorau.

(ii)Datganiad Busnes Drafft

7.3 Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad nad oedd newidiadau i'r busnes a amlinellwyd yn y Datganiad Busnes Drafft.

7.4 Nododd y Pwyllgor ddatganiad arfaethedig y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Busnes y Cynulliad am drefniadau busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnos sy'n dechrau ddydd Mawrth 16 Ebrill, dydd Mawrth 23 Ebrill a dydd Mawrth 30 Ebrill.

**8. Materion sy'n cael eu cyfeirio o'r Cyfarfod Llawn**

BC92-02 Rhan 1 & BC92-02 Rhan 2

8.1 Nododd y Pwyllgor y rhannau o'r Cofnod o 14 Chwefror am Weinidogion yn ateb Cwestiynau'r Cynulliad trwy gynnig i ysgrifennu. Dywedodd y Dirprwy Lywydd y dylai llythyrau gan Weinidogion yn cynnwys atebion i Gwestiynau'r Cynulliad fod ar gael i'r cyhoedd. Nododd bod paragraff 2.34 yn y *Canllawiau ar Gwestiynau'r Cynulliad* yn datgan "… Ni chyhoeddir yr ateb dros dro ond cyfeirir ato pan gyhoeddir yr ateb terfynol yn y Cofnod." Cytunodd y Pwyllgor y dylid cyhoeddi pob ateb. Cytunodd y Clerc i baratoi papur i'r Pwyllgor yn rhoi amlinelliad o'r dewisiadau.

**Camau i'w cymryd: Yr Ysgrifenyddiaeth**

**9. Adolygiadau i'r Rheolau Sefydlog**

BC90-02

9.1 Ystyriodd y Pwyllgor bapur yn rhoi amlinelliad o ddau ddewis ar gyfer dileu'r slot yn y Cyfarfod Llawn ar gyfer cwestiynau i Drefnydd y Cynulliad a'i gyfrifoldebau ar wahân i fusnes. Cytunodd y Pwyllgor y gellid cyflawni hyn heb newid y Rheolau Sefydlog, yn amodol ar ddatrys ymholiad gan Weinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig a Busnes y Cynulliad am ei swyddogaeth fel Gweinidog dros Hawliau Dynol.

**Camau i'w cymryd: Yr Ysgrifenyddiaeth**

BC95-02

9.2 Nododd y Pwyllgor Busnes Adroddiad y Pwyllgor ar adolygu'r Rheolau Sefydlog i ddileu'r ddarpariaeth am Gwestiynau Llafar i Bwyllgor y Ty. **Camau i'w cymryd: Yr ysgrifenyddiaeth i drefnu i osod yr adroddiad a'r cynnig.**

**10. Dyfarniad y Llywydd**

**11. Unrhyw fater arall**

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**